

Economy & Enterprise
Torfaen ~ inspiring business innovation
Economi a Mentergarwch
Torfaen ~ hybu arloesi mewn busnes

Hunan-gyflogedig? Darganfyddwch a allwch hawlio grant trwy'r Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth

Os ydych chi'n hunangyflogedig neu'n aelod o bartneriaeth ac wedi cael eich effeithio'n ddifrifol gan coronafirws (COVID-19) darganfyddwch a allwch chi ddefnyddio'r cynllun hwn gan Lywodraeth y DU i hawlio grant.

Bydd y cynllun yn caniatáu ichi hawlio grant trethadwy o 80% o'ch elw masnachu misol ar gyfartaledd, wedi'i dalu mewn un rhandaliad yn cwmpasu 3 mis, gydag uchafswm o £ 7,500 yn gyfan gwbl. Cynllun dros dro yw hwn, ond fe allai gael ei ymestyn.

Gallwch ddefnyddio'r [teclyn ar-lein](#) i ddarganfod a ydych chi'n gymwys i hawlio. Fe fydd angen eich rhif Cyfeirnod Trethdalwr Unigryw arnoch, (UTR) a'ch rhif Yswiriant Gwladol.

Cewch ragor o wybodaeth, gan gynnwys y camau sydd yn rhaid eu cymryd, pwy all hawlio, cymhwysedd, a'r teclyn ar-lein trwy [GOV.UK](#)

CThem yn gwahodd yr hunangyflogedig i baratoi i hawlio


Yr wythnos hon, bydd Cyllid a Thollau EM (HMRC) yn dechrau cysylltu â thua thair miliwn a hanner o gwsmeriaid a allai fod yn gymwys ar gyfer Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth y llywodraeth (SEISS) i egluro'r broses ymgeisio a'u helpu i baratoi i wneud hawliad.

Mae'r gwasanaeth hawliadau yn agor ddydd Mercher 13 Mai ac mae'n cael ei weithredu yn ôl yr amserlen, gyda thaliadau'n cyrraedd cyfrifon banc erbyn 25 Mai, neu chwe diwrnod gwaith ar ôl i'r hawliad gael ei wneud.

Roedd gwiriwr ar-lein ar gael o ddydd Llun 4 Mai (gweler uchod) a fydd yn caniatáu i gwsmeriaid wirio eu cymhwysedd drostynt eu hunain, yn ogystal â rhoi dyddiad iddynt allu gwneud cais.

Os na fydd unigolion yn gymwys ar gyfer y cynllun, bydd Cyllid a Thollau EM yn eu cyfeirio at ganllawiau sy'n nodi'r amodau i'w helpu i ddeall pam eu bod yn anghymwys, a chynghor ar gymorth arall a allai fod ar gael iddynt fel: gohirio treth incwm, cymorth rhent, Credyd Cynhwysol, mynediad i wyliau morgais a'r amrywiol gynlluniau cymorth busnes.

Mae Cyllid a Thollau EM yn disgwyl i'w llinellau ffôn fod yn brysur iawn dros yr wythnosau nesaf wrth i bobl ymuno â'r cynllun newydd hwn, felly maent yn annog cwsmeriaid i ffonio os na allant ddod o hyd i'r hyn sydd ei angen arnynt ar GOV.UK, gan eu hasiant treth neu trwy ein gwasanaeth gwe-sgwrsio.



Economy & Enterprise
Torfaen ~ inspiring business innovation
Economi a Mentergarwch
Torfaen ~ hybu arloesi mewn busnes

Benthyciadau Adfer Newydd yn lansio heddiw

Bydd busnesau bach ym Mhrydain yn gallu gwneud cais am fenthyciadau cyflym a hawdd eu cyrchu am hyd at £50,000 o heddiw 4 Mai 9am.

Bydd miloedd o gwmnïau bach ac unig fasnachwyr - gan gynnwys siopau sylfaenol y stryd fawr fel siopau trin gwallt, siopau coffi a gwerthwyr blodau - yn gymwys i gael Benthyciadau Adfer gyda 100% o gefnogaeth y llywodraeth i helpu i sicrhau y gallant barhau i fasnachu, a bod yn rhan allweddol o'r ymdrechion i ailgychwyn economi Prydain.

Ymhlith y nodweddion bydd

- busnesau yn medru benthyc rhwng £2,000 a £50,000 gyda'r arian yn cyrraedd o fewn diwrnodau
- bydd benthycwyr y benthyciadau yn derbyn 100% o gefnogaeth gan y llywodraeth a gall busnesau wneud cais ar lein drwy ffurflen fer a syml sy'n cynnwys 7 cwestiwn
- Cyfradd unffurf, fforddiadwy o 2.5% o log

Bydd y benthyciadau ar gael trwy rhwydwaith o fenthycwyr, yn cynnwys y pum banc mwyaf.

Darllenwch mwy ar [GOV.UK](https://www.gov.uk)

Cwmni logisteg arobryn yn Nhorfaen yn cefnogi'r GIG ac yn cyflawni yn ystod y cyfyngiadau symud

Mae Freight Logistics Solutions yn gwmni arobryn wedi'i leoli yn Nhorfaen, sy'n parhau i ddarparu gwasanaethau trafniadaeth y DU yn ogystal â mewnfario ac allfario gwasanaethau ledled y byd i'w cleientiaid yn ystod argyfwng COVID-19.

Trwy gydol yr argyfwng COVID -19 sydd ohono ar hyn o bryd, mae FLS hefyd wedi bod yn cefnogi'r sector meddygol, y GIG yn bennaf, ond hefyd busnesau fferyllol a chwmnïau eraill sy'n arallgyfeirio, cynhyrchu a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol, offer a gwasanaethau eraill i'r sector. [Darllen mwy](#)



Economy & Enterprise
Torfaen ~ inspiring business innovation
Economi a Mentergarwch
Torfaen ~ hybu arloesi mewn busnes

Adran Gwaith a Phensiynau yn lansio gwefannau newydd i weithwyr a chyflogwyr

Mae COVID-19 wedi cael effaith anferth ar lawer o rannau o'r farchnad lafur, gyda rhai sectorau yn lleihau mewn maint ac eraill yn ehangu'n gyflym. I helpu pobl sy'n chwilio am waith mewn meysydd newydd ac i helpu cyflogwyr i ganfod marchnadoedd llafur newydd, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi lansio gwefannau newydd [help gyda swyddi](#) a [help i gyflogwyr](#). Mae'r rhain yn cynnig gwybodaeth ar y farchnad lafur i bobl sy'n chwilio am swydd nawr a chyngor i gyflogwyr i helpu.

Canllawiau Yswiriant Busnes Covid-19

Mae aelodau Cymdeithas Yswirwyr Prydain yn gweithio'n ddiflino i gefnogi eu cwsmeriaid, drwy dalu ceisiadau dilys yn gyflym, taliadau dros dro i'w cwsmeriaid, a darparu atebion clir a chyflym i'w cwestiynau. Mae'r Gymdeithas Yswirwyr Prydain wedi darparu'r [canllawiau](#) canlynol ar y cwestiynau cyffredin sy'n ymwneud ag yswiriant a materion busnes eraill:

Beth yw yswiriant tarfu ar fusnes?

Sut mae busnesau yn prynu yswiriant tarfu ar fusnes?

Yn gyffredinol, beth mae polisïau tarfu ar fusnes yn ei gynnwys?

A yw'r yswiriant tarfu ar fusnes safonol yn darparu sicrwydd i fusnesau nad ydynt yn gallu gweithredu oherwydd effeithiau COVID-19?

A yw estyniad 'clefyd hysbysadwy' i yswiriant tarfu ar fusnes yn rhoi sicrwydd yswiriant i fy musnes ar gyfer COVID-19?

A oes unrhyw estyniadau eraill i yswiriant tarfu ar fusnes a allai roi sicrwydd yswiriant?

Materion busnes eraill:

A oes angen i mi barhau i ymweld yn rheolaidd â'r adeilad busnes gwag os yw yn erbyn canllawiau'r Llywodraeth?

Os nad yw fy musnes yn gallu gweithredu oherwydd COVID-19, a ddylwn i ganslo fy mholisi yswiriant?

A yw polisïau yswiriant seiber yn cynnwys gweithio o gartref/gweithio o bell?

Mae rhagor o wybodaeth gan gynnwys cyngor, canllawiau a chwestiynau cyffredin sy'n ymwneud ag yswiriant ar gael ar [Hwb Wybodaeth Coronafeirws](#) ar wefan y Gymdeithas Yswirwyr Prydain. Gweler hefyd cyngor y Gymdeithas Yswirwyr Prydain ar [sicrwydd yswiriant busnes](#).

Ffynonell: [Busnes Cymru](#)



Economy & Enterprise
Torfaen ~ inspiring business innovation
Economi a Mentergarwch
Torfaen ~ hybu arloesi mewn busnes

Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws i wneud cais am gyflogau gweithwyr. Y camau sydd angen i chi eu cymryd yw:

1. [Edrychwch i weld os gallwch hawlio.](#)
2. [Cyfrifwch 80% o gyflogau eich gweithwyr.](#)
3. [Hawlio cyflogau eich gweithwyr.](#)
4. [Adrodd am daliad mewn Gwybodaeth Amser Real PAYE.](#)

Darllenwch ragor

Tîm Economi a Mentergarwch – Cymorth Busnes

Os oes angen i chi gysylltu gydag ymholiad, cwblhewch eich manylion **yma** a byddwn yn cysylltu â chi cyn gynted â phosib.

COVID-19: Arweiniad i gyflogeion, cyflogwyr a busnesau

<https://www.gov.uk/government/publications/guidance-to-employers-and-businesses-about-covid-19>

COVID-19: Cefnogaeth i fusnesau

<https://www.gov.uk/government/publications/guidance-to-employers-and-businesses-about-covid-19/covid-19-support-for-businesses>

Cadwch lygad ar ein cyfrif twitter i weld diweddariadau pellach [**@TorfaenbizCymru**](#)